HYFFORDDIANT RHEOLI YMDDYGIAD

Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi Dros Addysg
A Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
For Education and Training in Wales

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

...Rhagoriaeth i bawb... …Excellence for all…

© Hawlfraint y Goron. Gellir atgynhyrchu rhan neu'r cyfan o'r adroddiad hwn at ddibenion anfasnachol ar yr amod na chaiff unrhyw ddarnau a ddyfynnir eu haddasu a'u bod yn hytrach yn dilyn y gwreiddiol air am air, ac y cydnabyddir ffynhonnell a dyddiad y dyfyniadau.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd CF24 5JW
Ffôn: 02920 446446
Ffacs: 02920 446448
www.estyn.gov.uk

Cynnwys		Tudalen

1.	Cyflwyniad	4
2.	Prif Ganfyddiadau	4
3.	Argymhellion	5
4.	Gwybodaeth Gefndirol	6
5.	Y berthynas rhwng ansawdd yr addysgu ac ymddygiad	9
6.	Gweithio gyda phartneriaid	10
7.	Hyfforddiant llwyddiannus ar reoli ymddygiad	12
8.	Defnyddio data mewn rheoli ymddygiad	14
9.	Monitro ac arfarnu hyfforddiant	15
10.	Pwy sydd wedi cael hyfforddiant?	15
11.	Pwy sy'n darparu'r hyfforddiant?	16
12.	Rhwydweithiau, cymorth a gwybodaeth lleol	17
13.	Cyfeiriadau	18

1. Cyflwyniad

1.1 Diben

Diben yr adroddiad hwn yw rhoi cyngor, yn unol â chylch gwaith Estyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ar y camau a gymerwyd gan awdurdodau lleol i hyfforddi staff i reoli ymddygiad disgyblion mewn ysgolion. Mae'r adroddiad yn cefnogi ymroddiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynhwysiad cymdeithasol a chyfle cyfartal fel y nodir yn 'Y Wlad sy'n Dysgu' ym mis Awst 2001.

1.2 Sail dystiolaeth

Seilir y cyngor hwn ar:

- wybodaeth a dynnwyd o arolwg o hyfforddiant rheoli ymddygiad mewn 20 awdurdod lleol;
- gwybodaeth a ddarparwyd gan awdurdodau lleol ar wasanaethau rheoli ymddygiad;
- cynnwys y Cynlluniau Cefnogi Ymddygiad;
- adroddiadau arolygu Adran 10 Estyn ar ysgolion unigol; ac
- adroddiadau gan Estyn a'r Comisiwn Archwilio ar wasanaethau anghenion addysgol arbennig awdurdodau lleol, gan gynnwys gwasanaethau cymorth ymddygiad.

2. Prif Ganfyddiadau

Ceir amrywiaeth sylweddol rhwng awdurdodau lleol o ran ansawdd a chwmpas gweithio mewn partneriaeth o fewn ac ar draws cyfarwyddiaethau mewn perthynas â gwella ymddygiad plant.

Nid oes gan lawer o awdurdodau lleol gyllidebau unigol, a rennir rhwng addysg a'r gwasanaethau cymdeithasol, i'w galluogi i weithredu cynlluniau ar gyfer gwella ymddygiad plant.

Nid yw mwyafrif yr awdurdodau'n dda wrth gydweithio gydag asiantaethau gwirfoddol perthnasol neu wasanaethau a ddarperir ar ran y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, ac felly ceir diffyg cydlyniad yn y gwasanaethau ar gyfer plant gydag anawsterau ymddygiad.

Gall ysgolion a gwasanaethau eraill sy'n gweithio mewn ffordd gydweithredol gyda rhieni a gofalwyr gael effaith bwysig ar ymddygiad plant yn yr ysgol.

Mae Gwasanaethau Cymunedol ac Iechyd Meddwl (CAMHS) mewn llawer o ardaloedd awdurdodau lleol, yn chwarae rôl sylweddol wrth gyflwyno hyfforddiant i staff mewn ysgolion. Fodd bynnag, nid oes digon yn cael ei wneud i wella dealltwriaeth yr athrawon o iechyd meddwl mewn plant.

Nid yw llawer o awdurdodau lleol yn arfarnu'n effeithiol effaith hyfforddiant ar reoli ymddygiad i sicrhau ei fod yn cael effaith gadarnhaol.

Yn gyffredinol, caiff staff cymorth nad ydynt yn staff addysgu eu hyfforddi'n annigonol i weithio gyda disgyblion ag anawsterau ymddygiad.

Ni roddir digon o bwysigrwydd bob amser i'r gydberthynas rhwng anawsterau ymddygiad disgyblion a'u cyflawniad addysgol. Mae'r strategaethau i wella ymddygiad ar eu mwyaf effeithiol pan fyddant yn cael eu cysylltu'n gydlynus ag ymdrechion i wella agweddau at ddysgu. Nid yw llawer o awdurdodau eto wedi datblygu cysylltiadau effeithiol rhwng gwasanaethau gwella ysgolion ac anghenion addysgol arbennig/gwasanaethau ymddygiad.

Nid yw staff mewn ysgolion bob amser yn gweithio'n dda fel tîm wrth reoli ymddygiad disgyblion. Mae ysgolion sy'n mabwysiadu ac yn gweithredu'n llwyddiannus ymagwedd ysgol gyfan at ymddygiad yn cael yr effaith fwyaf cadarnhaol.

Nid yw aelodau etholedig yn cael gwybodaeth gyson am weithgareddau ar draws cyfarwyddiaethau sy'n ymwneud â gwella ymddygiad plant, yn bennaf am nad yw rheoli perfformiad wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

3. Argymhellion

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddi arweiniad i awdurdodau lleol ar:

- integreiddio'r wybodaeth sy'n ymwneud â phlant a ddelir ar draws cyfarwyddiaethau;

- y strwythurau ar gyfer cynllunio ar y cyd, cyflwyno neu gomisiynu a gwerthuso gwasanaethau i blant; ac

- arfer dda ar ymddygiad a phresenoldeb.

Dylai awdurdodau addysg lleol:

- barhau i ymrwymo'r holl bartneriaid wrth ddatblygu gweledigaeth a gweithredu strategaethau ar wella ymddygiad plant. Byddai hyn yn golygu dod â gwybodaeth at ei gilydd a defnyddio cyllidebau ar y cyd, gyda mecanweithiau cynllunio, hyfforddiant a chymorth wedi'u cydlynu'n briodol i fynd i'r afael ag ymddygiad anodd;

- sicrhau bod yna hyfforddiant a chymorth priodol ar gyfer staff nad ydynt yn addysgu sy'n gweithio gyda disgyblion ag anawsterau ymddygiad;

- defnyddio medrau seicolegwyr addysg a staff arbenigol; i sicrhau bod gwybodaeth am ymddygiad yn cael ei chasglu a'i dadansoddi'n briodol;

- arfarnu effaith rhaglenni hyfforddiant rheoli ymddygiad; a nodi'r hyn sy'n gweithio'n dda mewn ysgolion;

- hyrwyddo gwell dealltwriaeth ymhlith athrawon a staff cymorth am iechyd meddwl fel achos ymddygiad anodd mewn plant trwy weithio mewn cydweithrediad agosach gyda thimau CAMHS; a

- sicrhau bod fframwaith rheoli perfformiad ar sail canlyniadau a rennir yn cael ei weithredu ar draws cyfarwyddiaethau.

Dylai awdurdodau lleol ac asiantaethau partner:

- rannu gwybodaeth am bob agwedd ar gymorth ymddygiad i alluogi staff i ddysgu gan arfer dda pobl eraill sy'n gweithio i wella ymddygiad plant.

Dylai ysgolion:

- ddatblygu a gweithredu strategaethau a systemau sy'n cynnig ymagwedd ysgol gyfan at reoli ymddygiad yng nghyd-destun ehangach rhaglenni ABCh a threfniadau cysylltiedig ar gyfer gofal ac arweiniad i ddisgyblion;

- cynllunio yn fwy gofalus o ran sut orau i fodloni anghenion yr holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai gydag anghenion ymddygiad ac anghenion dysgu arbennig;

- parhau i weithio'n agos gyda rhieni ac asiantaethau eraill i gynnig ymagwedd gyson i reoli ymddygiad disgyblion;

- monitro ac arfarnu effaith ymyriad ar gyflawniadau disgyblion; a

- sicrhau nad yw dysgu'r disgyblion yn cael ei amharu arno'n ddiangen trwy dynnu disgyblion o wersi ar gyfer addysgu arbenigol ychwanegol.

4. Gwybodaeth gefndirol

4.1 Tystiolaeth arolygu

Mae Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru yn disgrifio'r safonau a gyflawnir gan ddysgwyr ac ansawdd eu haddysg a'u hyfforddiant. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi sylw i'r trefniadau a wna ysgolion ac awdurdodau lleol ar gyfer gwella ymddygiad disgyblion. Mae tystiolaeth arolygu dros y tair blynedd diwethaf yn dangos y cafwyd gwelliannau yn y ffordd y mae athrawon yn rheoli ymddygiad disgyblion, yn enwedig lle mae'r staff addysgu a'r rhai nad ydynt yn addysgu wedi cael hyfforddiant a bod pawb yn rhoi'r hyn a ddysgwyd ar waith.

Mae arolygiadau o wasanaethau anghenion addysgol arbennig (AAA) awdurdodau lleol, gan gynnwys gwasanaethau cymorth ymddygiad, dros y tair blynedd diwethaf wedi dod o hyd i wahaniaethau mawr yn ansawdd y gwasanaethau a ddarperir. Mae awdurdodau lleol sy'n gweithio'n rhagweithiol gydag ysgolion a rhieni i gefnogi gwella ymddygiad yn cael canlyniadau cadarnhaol ar gyfer disgyblion.

Mae cydweithio agos rhwng gwasanaethau gwella ysgolion a gwasanaethau cymorth AAA/ymddygiad yn ffactor pwysig wrth wella ymddygiad disgyblion mewn ysgolion. Mewn rhai awdurdodau mae'r gwasanaethau hyn yn cydweithio'n effeithiol iawn. Lle mae hyn yn digwydd, ceir data cynhwysfawr am berfformiad ysgolion mewn perthynas â:

- chyflawniad disgyblion;
- cyrhaeddiad disgyblion;
- gwybodaeth a ddarperir ar gyfer athrawon a gweithwyr cymorth;
- hyfforddiant a gafwyd; a
- chanlyniadau hyfforddiant.

Dim ond nifer fach o awdurdodau sy'n gwneud defnydd da o'r wybodaeth hon i ddeall pa ymagweddau sy'n gweithio orau ar gyfer rheoli ymddygiad.

4.2 Cynlluniau Cymorth Ymddygiad (CCY)

Yn ôl y gyfraith, rhaid i bob awdurdod baratoi ac adolygu datganiad gyda manylion y trefniadau a wnaed, neu a gynigiwyd, yn eu hardal ar gyfer addysg plant gydag anawsterau ymddygiad. Adnabyddir y datganiad hwn fel Cynllun Cymorth Ymddygiad.

Rhaid i'r cynllun gynnwys y trefniadau ar gyfer:

- cynnig cyngor ac adnoddau i ysgolion perthnasol i hyrwyddo ymddygiad da a disgyblaeth, a delio gyda disgyblion gyda phroblemau ymddygiad;
- darpariaeth ar gyfer disgyblion a addysgir mewn lleoliad ar wahân i ysgol, er enghraifft oherwydd gwaharddiad; a
- chynorthwyo disgyblion gydag anawsterau ymddygiad i ddod o hyd i leoedd mewn ysgolion addas.

Yn gyffredinol, mae'r CCY yn nodi'r strategaethau hyfforddiant penodol y bydd yr awdurdodau'n cynnig i staff mewn ysgolion i'w cynorthwyo wrth ddatblygu rheoli ymddygiad disgyblion yn well.

4.3 Timau Cymorth Ymddygiad

Mae'r mwyafrif o awdurdodau lleol wedi sefydlu timau cymorth ymddygiad i gefnogi gweithredu eu CCY. Er bod modelau gwasanaeth rhwng awdurdodau'n amrywio, mae tebygrwydd o ran arferion gweithio. Mae'r rhan fwyaf o dimau'n cynnig:

- cymorth ac arweiniad i ddisgyblion unigol;
- cymorth a chyngor i athrawon unigol;
- hyfforddiant ar gyfer staff ysgol gyfan;
- hyfforddiant ar gyfer llywodraethwyr, ac eraill sy'n gweithio gyda phlant; a
- chyswllt rhwng rhieni, ysgolion ac asiantaethau cymorth.

Mae nifer fach o dimau'n gweithio gydag asiantaethau eraill i gynnig hyfforddiant a chymorth i rieni ar sut i wella ymddygiad eu plant.

Fel rheol mae timau cymorth ymddygiad yn cynnwys athrawon arbenigol a gweithwyr cymorth ac mae seicolegydd addysg yn gweithio gyda nhw. Fel arfer, ceir cysylltiad agos â'r gweithwyr cymdeithasol addysg a thimau troseddau ieuenctid (TTI). Mae llawer o dimau'n gweithio'n agos gydag unedau cyfeirio disgyblion lleol, gan rannu staff ac arbenigedd yn aml.

Mae'r timau cymorth ymddygiad yn cynnig y rhan fwyaf o'r hyfforddiant ar reoli ymddygiad ym mwyafrif yr awdurdodau. Maent yn aml yn rhagweithiol wrth gynnwys asiantaethau eraill yn yr hyfforddiant hwn. Caiff hyfforddiant ei ganolbwyntio'n bennaf ar helpu athrawon i ddatblygu gwell perthnasoedd gyda disgyblion a gwella rheoli'r ystafell ddosbarth.

4.4 Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru

Mae Cod Ymarfer AAA Cymru 2002 yn cynnig cyngor ymarferol mewn perthynas â'r dyletswyddau a'r hawliau statudol a gynhelir yn Rhan IV Deddf Addysg 1996 a Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd (SENDA) 2001. Mae'r Cod yn rhoi arweiniad clir ar roi ymateb graddedig i anghenion disgyblion, gan gynnwys y gofyniad statudol i asesu anghenion a gwneud a chynnal datganiadau AAA. Dim ond canran fach iawn o ddisgyblion ledled Cymru sydd wedi mynd trwy asesiad statudol yn arwain at ddatganiad anghenion addysgol arbennig yn benodol at ddibenion emosiynol ac ymddygiadol.

Disgyblion gyda datganiad ar gyfer anawsterau ymddygiad.

2002-2003	**Bechgyn**	**Merched**	**Cyfanswm**
Disgyblion gyda Datganiad ar gyfer Ymddygiad	1,526	239	1,765
Disgyblion gyda Datganiad ar gyfer Ymddygiad fel % o'r holl ddisgyblion mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru	0.62%	0.10%	0.36%

Nid oes angen datganiad anghenion addysgol arbennig ar fwyafrif helaeth y disgyblion mewn ysgolion y mae eu hymddygiad unigol yn destun gofid a chaiff eu hanghenion eu bodloni'n briodol wrth i'r ysgol wneud trefniadau mewnol trwy gam 'Gweithredu gan yr Ysgol' y Cod. Pan fydd angen cymorth o'r tu allan i'r ysgol, mae'r awdurdod lleol yn darparu hwn trwy 'Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy', neu mae'n cynnal asesiad statudol. Fodd bynnag, mae

nifer o dimau cymorth ymddygiad yn cynnig cymorth, cyngor ac arweiniad cychwynnol ar sut i wella ymddygiad disgyblion unigol ar gam cynnar o'r ymateb graddedig.

Ychydig iawn o awdurdodau lleol sydd â data ar nifer y disgyblion sy'n cael cymorth ar gyfer ymddygiad heb ddatganiad AAA cyn Ebrill 2002 pan gafodd Cod Ymarfer Cymru ei gyflwyno. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae nifer o awdurdodau'n datblygu systemau ar gyfer casglu gwybodaeth am ddisgyblion sy'n cael cymorth trwy gamau 'Gweithredu gan yr Ysgol' neu 'Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy'.

4.5 Defnyddio cronfeydd canolog i ariannu hyfforddiant rheoli ymddygiad

Mae defnydd yr awdurdodau lleol o grantiau canolog ar gyfer addysg, cymorth a hyfforddiant i dalu am hyfforddi athrawon ymddygiad arbenigol, cynorthwywyr cymorth dysgu a hyfforddi staff cymorth eraill yn ystyried yn briodol blaenoriaethau cynhwysiad cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Yn gyffredinol, mae'r cyrsiau a gynigir o ansawdd da. Fodd bynnag, nid yw awdurdodau lleol yn gwneud digon i arfarnu effeithiolrwydd y rhaglenni hyfforddiant ac felly, nodi'r hyn sy'n gweithio'n dda mewn ysgolion.

5. Y berthynas rhwng ansawdd yr addysgu ac ymddygiad

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn addysgu eu disgyblion yn dda ac yn rheoli ymddygiad disgyblion yn effeithiol. Mae mwyafrif helaeth y disgyblion yn synhwyrol, yn gwrtais ac yn cadw at reolau'r ysgol. Fodd bynnag, mewn rhai dosbarthiadau lle mae'r disgyblion yn ymddwyn yn dda ar y cyfan, gallai cynnydd gael ei rwystro gan aflonyddwch lefel isel a achosir gan nifer fach o ddisgyblion sy'n tynnu sylw'r lleill. Fel rheol, ychydig ddisgyblion sy'n camymddwyn yn ddifrifol. Gall hyfforddiant sy'n hyrwyddo ymagwedd gyson, ysgol gyfan, ac mewn rhai achosion, ymagwedd awdurdod cyfan, gael effaith arwyddocaol ar reoli ymddygiad disgyblion.

Gall ymddygiad gwael ddeillio o amrywiaeth o ffactorau:

- anhawster wrth ymdopi â gwaith ysgol;
- gwaith ysgol nad yw'n cyd-fynd ag anghenion dysgu;
- hunan-barch isel;
- perthnasoedd gwael gydag athrawon;
- addysgu gwael;
- perthnasoedd gwael gyda disgyblion eraill, a allai gynnwys bwlio;
- anfodlonrwydd â'r cwricwlwm a gynigir yn yr ysgol;
- pwysau gan eraill i ymddwyn mewn ffordd sy'n gwrthdaro ag awdurdod; ac
- amgylchiadau anodd yn y cartref, gan gynnwys diffyg disgyblaeth a rheolaeth gan rieni.

I'r disgyblion hynny y mae eu hymddygiad yn gysylltiedig â'r teulu ac anawsterau cysylltiedig sydd y tu hwnt i reolaeth yr ysgol, ac a allai gael eu heffeithio gan faterion sy'n cael eu cysylltu'n gyffredin a phresenoldeb gwael, yr ymagwedd aml-asiantaeth yw'r mwyaf llwyddiannus. Gall y wybodaeth a'r arbenigedd staff a rennir ar draws asiantaethau gynnig cymorth da i ddisgyblion a theuluoedd sy'n cael problemau. Yn gyffredinol, dim ond lleiafrif bach o ddisgyblion sydd ag ymddygiad sy'n anodd iawn i'w reoli yn yr ysgol yn rheolaidd.

Er gwaetha'r problemau y mae rhai disgyblion yn eu cael, mae mwyafrif yr ysgolion yn rheoli ymddygiad disgyblion yn llwyddiannus. Mae ymddygiad da yn amlwg yn fwyaf aml mewn ysgolion lle mae athrawon yn cyflwyno gwersi diddorol sy'n cynnig her ddigonol. Mae strategaethau hyfforddiant i wella ymddygiad ar eu mwyaf effeithiol pan fyddant yn cael eu cysylltu ag ymdrechion i wella addysgu a dysgu.

Mae addysgu da yn darparu'r prif gymhelliad ar gyfer ymddygiad da yn yr ysgol. Mewn ysgolion lle mae ymddygiad disgyblion yn dda, mae'r athrawon yn sicrhau bod y dysgu a'r addysgu yn ddiddorol, yn heriol ac yn cael eu gwahaniaethu i fodloni anghenion yr holl ddysgwyr. Maent yn cynllunio'u gwersi'n dda ac yn nodi amcanion dysgu clir y maent yn eu rhannu gyda'r disgyblion, fel bod y disgyblion yn gwybod yr hyn y mae disgwyl iddynt fod wedi'i ddysgu erbyn diwedd y wers a sut byddant yn cyflawni hyn. Mae athrawon da yn archwilio lefel dealltwriaeth y disgyblion ar hyd y wers ac yn aml yn gorffen y wers gyda sesiwn lawn lle caiff y prif bwyntiau dysgu eu hatgyfnerthu. Mae gan yr athrawon hyn hefyd reolaeth dda o'r dosbarth a cheir perthnasoedd cynnes rhwng y disgyblion a'r athrawon. Lle mae cynorthwywyr cymorth yn bresennol maent yn gweithio'n dda gyda'r athro i sicrhau bod y disgyblion yn cael y lefelau cymorth priodol. Mae hyfforddi athrawon a staff cymorth i ddefnyddio canmoliaeth ac atgyfnerthu cadarnhaol a gosod disgwyliadau uchel o ran ymddygiad a dysgu'r disgyblion, wedi bod yn flaenoriaeth uchel mewn nifer o awdurdodau.

Gall disgyblion gydag anghenion dysgu arbennig deimlo bod agweddau ar y gwersi'n anodd ac felly maent yn ymddwyn yn wael i osgoi'r tasgau a osodwyd. Hwyrach nad yw anghenion dysgu arbennig rhai disgyblion wedi'u nodi neu nid ydynt yn cael y cymorth priodol. Gall y disgyblion hyn geisio cuddio'u hanawsterau academaidd trwy 'dynnu sylw at eu hunain' neu ymddwyn mewn ffordd 'ddidaro'. Yn gyffredinol, mae timau cymorth ymddygiad a staff AAA yn gweithio'n dda i gynorthwyo athrawon a staff cymorth eraill i roi gwaith wedi'i wahaniaethu'n briodol a rhoi cyngor ynghylch sut orau gallant fodloni anghenion dysgu ac ymddygiad disgyblion. Fodd bynnag, gall yr arfer mewn nifer o ysgolion o dynnu disgyblion allan ar gyfer sesiynau unigol y tu allan i'r ystafell ddosbarth darfu ac nid yw'r gwaith a gyflawnir gan y disgyblion hyn bob amser wedi'i gydweddu'n dda â'u gwaith yn y dosbarth.

Mae nifer o awdurdodau lleol bellach yn cynllunio'n strategol ac yn monitro gwaith y gwasanaeth gwella ysgolion a'r gwasanaethau cymorth ymddygiad/ cynhwysiad cymdeithasol a'r gwasanaethau AAA mewn ffordd fwy cydlynus.

Mae hyn yn galluogi cydweddu gwybodaeth am berfformiad ysgolion â data arall, gan gynnwys yr hyn sy'n berthnasol i ymddygiad disgyblion a chymorth a hyfforddiant athrawon. Yn gyffredinol, mae angen i awdurdodau ddatblygu ffyrdd gwell o ddefnyddio'r data cynhwysfawr hwn fel arf wrth gynllunio ac arfarnu effaith hyfforddiant.

6. Gweithio gyda phartneriaid

Mae cefnogi disgyblion gydag anawsterau ymddygiad yn aml yn gofyn i awdurdodau lleol weithio'n agosach gyda phartneriaid ac asiantaethau eraill, yn enwedig pan fydd yr ymddygiad yn deillio o amgylchiadau gartref. Mae'r cymorth mwyaf effeithiol i blant yn dod o ymagwedd ddi-dor, gynhwysfawr sy'n gweithredu ar draws gwahanol asiantaethau. Mae rhai o'r partneriaid allweddol sy'n rhan o gefnogi disgyblion gydag ymddygiad anodd yn cynnwys:

- rhieni a gofalwyr;
- athrawon a gweithwyr cymorth;
- gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys timau troseddau ieuenctid (TTI);
- gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS);
- gwasanaethau lles addysg (EWS);
- meddygon teulu;
- asiantaethau gwirfoddol;
- gwasanaethau cymorth ymddygiad/cynhwysiad cymdeithasol; a'r
- heddlu ac ynadon.

Gall gweithio'n agos gyda rhieni a gofalwyr gael effaith bwysig ar ymddygiad plant yn yr ysgol. Mae datblygu perthynas gyda rhieni a gofalwyr i weithio'n gydweithredol i reoli ymddygiad yn fwy llwyddiannus na cheisio gweithio heb eu hymrwymiad. Mae rhai awdurdodau'n gofyn i rieni arwyddo contractau yn cytuno ar eu rôl wrth hyrwyddo gwell ymddygiad.

Mae rhaglenni magu plant ledled Cymru, trwy'r math o bartneriaethau y gall Cychwyn Cadarn eu cynnig, yn cefnogi llawer o rieni'n llwyddiannus, yn enwedig rhieni plant dan bum mlwydd oed. Ar hyn o bryd, caiff y rhaglenni hyn eu cyflwyno mewn partneriaeth â darparwyr y blynyddoedd cynnar, ysgolion ac asiantaethau eraill. Dim ond mewn nifer fach o awdurdodau y mae timau cymorth ymddygiad yn rhan o brosiectau Cychwyn Cadarn. Mae angen cynllunio a chyflwyno hyfforddiant a chymorth i rieni a phlant mewn ffordd fwy cydlynus i sicrhau ymagwedd gyson i reoli ymddygiad. Pan fydd gwasanaethau'n cynnig cymorth a chyngor da i rieni ar sut i wella ymddygiad eu plant, ar yr un pryd â chyflwyno ymagwedd gyson yn yr ysgol, ceir newid cadarnhaol mewn ymddygiad fel arfer.

Nododd Children in Mind (1999), sef astudiaeth y Comisiwn Archwilio o waith timau CAMHS, fod ymddygiad aflonyddgar, gwrthgymdeithasol neu ymosodol yn un o'r pedair problem fwyaf cyffredin sydd i'w gweld ymhlith plant gyda phroblemau iechyd meddwl, ac roedd gan y rhan fwyaf o'r plant fwy nag un o'r problemau hyn. Sefydlodd dogfen strategaeth CAMHS Cymru, Busnes Pawb

(2001), egwyddorion cadarn ar gyfer gweithio aml-asiantaeth a oedd yn cydnabod rolau hanfodol asiantaethau partner wrth gefnogi gwelliannau mewn iechyd meddwl plant. Adlewyrchir yr ymagwedd gynhwysol hon yn yr hyfforddiant ar reoli ymddygiad y mae nifer o dimau CAMHS, mewn cydweithrediad â gwasanaethau cymorth ymddygiad, wedi rhoi i athrawon a staff cymorth mewn ysgolion, yn ogystal ag i rieni. Fodd bynnag, hwyrach nad yw ysgolion bob amser yn deall achos problemau plentyn, neu'n ystyried y posibilrwydd y gallai iechyd meddwl fod yn rheswm am anawsterau plentyn.

Mae rhai awdurdodau wedi dod ag addysg a gwasanaethau cymdeithasol at ei gilydd mewn un gyfarwyddiaeth i ymdrin â gwasanaethau plant. Lle mae hyn wedi digwydd, mae mwy o gyfleoedd i gynllunio, cyflwyno ac arfarnu gwasanaethau'n weithgar i blant sy'n agored i niwed mewn ymagwedd fwy unedig. Byddai mwy o weithio cydweithredol ar draws cyfarwyddiaethau a grymoedd cyllidebol a chomisiynu ar y cyd estynedig awdurdodau lleol yn galluogi amrywiaeth o drefniadau cymorth hyblyg, aml-asiantaeth.

Mae nifer o arolygiadau Estyn o wasanaethau awdurdodau lleol wedi amlygu'r angen i wella gweithio mewn partneriaeth gydweithredol ar draws asiantaethau.

7. Hyfforddiant llwyddiannus ar reoli ymddygiad

Mae awdurdodau lleol wedi cynnig ystod eang o hyfforddiant i staff cymorth wella ymddygiad disgyblion. Fodd bynnag, dim ond dau awdurdod sydd wedi cynnig hyfforddiant i dros 30% o'r athrawon, gyda deg awdurdod yn hyfforddi llai na 15% o athrawon. Mae rhai o'r mentrau mwyaf effeithiol y mae staff wedi cael hyfforddiant ynddynt wedi'u hamlinellu isod.

7.1.1 Disgyblaeth Bendant

Mae dros hanner yr awdurdodau yng Nghymru wedi rhoi hyfforddiant mewn strategaethau ysgol gyfan ar gyfer cynnal a gwella safonau ymddygiad, yn gyffredinol trwy ddefnyddio ymagwedd 'Disgyblaeth Bendant'. Mae'r strategaeth yn hyrwyddo amgylchedd diogel yn yr ystafell ddosbarth trwy feithrin parch at ei gilydd. Mae'n annog staff i ddefnyddio canmoliaeth ac ymddygiad cadarnhaol er mwyn annog dysgu effeithiol. Mae'r awdurdodau sy'n cyflawni cryn lwyddiant trwy'r strategaeth hon yn hyrwyddo, trwy hyfforddiant yn yr ysgolion, yr angen am arweinyddiaeth glir ar faterion ymddygiad gyda pholisïau a gweithdrefnau cytûn, systemau dibynadwy y mae staff, gan gynnwys staff cymorth, yn deall, a disgwyliadau a threfn y mae'r disgyblion yn glir yn eu cylch. Mae cysylltiad â rhieni a chefnogaeth aml-asiantaeth gan weithwyr cymorth allanol pan fydd yn ofynnol, yn helpu sefydlu ymagwedd gyson. Mae ffactorau sy'n cymell disgyblion ac yn eu hannog i ymddwyn yn dda yn cynnwys, yn benodol, gwobrau a chanmoliaeth a roddir mewn ffordd gyson sy'n cydnabod llwyddiant yn effeithiol ac yn atgyfnerthu ymddygiad cadarnhaol. Mae mwyafrif yr awdurdodau hyn yn cynnig rhaglen hyfforddiant barhaus i sicrhau bod staff newydd yn cael hyfforddiant priodol yn yr ymagwedd hon.

7.1.2 Amser Cylch

Mae llawer o awdurdodau wedi cyflwyno hyfforddiant ar ddefnyddio 'Amser Cylch' i helpu staff reoli ymddygiad disgyblion. Mae'r strategaeth wedi bod yn hynod lwyddiannus mewn ysgolion cynradd, ac mae'n cael effaith dda mewn rhai awdurdodau lle cafodd ei chyflwyno'n ddiweddar i ddosbarthiadau Addysg Bersonol a Chymdeithasol ysgolion uwchradd. Mae Amser Cylch yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion ac athrawon ddod i wybod mwy am ddiddordebau a theimladau disgyblion, a datblygu medrau gwrando a chyfathrebu mewn amgylchedd anghystadleuol. Mae rhai athrawon yn defnyddio pypedau a deunydd fideo yn y sesiynau hyn i helpu mynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig â bwlio, dwyn a rhywioldeb.

7.1.3 Delio ag Ymosodedd Emosiynol a Hyfforddiant Ataliaeth (HEART)

Mae un awdurdod wedi sefydlu tîm o bymtheg arbenigwr i gyflwyno hyfforddiant ysgol gyfan ar sut orau i ymateb i ddigwyddiadau ymosodol a lleddfu sefyllfaoedd o wrthdaro. Mae'r tîm, sy'n cynnwys athrawon a phenaethiaid cyfredol, yn hyfforddi staff i ddefnyddio rhaglen HEART wrth leddfu digwyddiadau a allai droi'n dreisgar. Mae nifer o awdurdodau'n defnyddio HEART fel model i hyrwyddo mwy o hyder ymhlith staff wrth ddelio ag anawsterau.

7.1.4 Therapi Byr wedi'i Ganolbwyntio ar Atebion

Mae dros chwarter yr awdurdodau wedi cynnal hyfforddiant achrededig ar gyfer athrawon a seicolegwyr addysg i weithio'n uniongyrchol gyda disgyblion trwy ddefnyddio Therapi Byr wedi'i Ganolbwyntio ar Atebion. Mae'r math hwn o seicotherapi wedi'i gynllunio i gymryd ychydig iawn o sesiynau ac mae'n canolbwyntio ar ddod o hyd i atebion wedi'u teilwra'n unigol i'r problemau y mae disgyblion yn eu cael.

7.1.5 Grwpiau Meithrin

Mae datblygu Grwpiau Meithrin i helpu addysgu disgyblion sut i ffurfio gwell perthnasoedd gydag oedolion a datblygu cymorth cymheiriaid yn gwella ymddygiad, cyrhaeddiad a phresenoldeb ysgol y disgyblion, ac mae'n magu eu hyder a'u hunan-barch mewn nifer fach o awdurdodau. Mae'r grwpiau'n gweithio'n agos gyda staff ysgolion a'r rhieni i geisio gwella amgylchedd anogol emosiynol a chefnogol yr ysgol gyfan ar gyfer yr holl ddisgyblion. Datblygwyd rhwydwaith cymorth rhanbarthol ar draws chwech awdurdod yn ne Cymru gyda'r nod o gyflwyno cwrs hyfforddiant achrededig y Rhwydwaith Grŵp Meithrin.

7.1.6 Webster-Stratton

Mae nifer o awdurdodau wedi buddsoddi mewn hyfforddiant ymyriad cynnar ar gyfer athrawon disgyblion ifanc trwy gyflwyno rhaglen Ysgolion Deinosor Webster-Stratton. Mae'r Rhaglen Athro, Rhiant a Phlentyn y Blynyddoedd

Rhyfeddol, a sefydlwyd gan Brifysgol Cymru, Bangor, yn lledaenu hyfforddiant a gwaith ymgynghorol ar sail methodoleg Webster-Stratton. Mae gan y ganolfan weithwyr proffesiynol wedi'u hyfforddi i gyflwyno rhaglenni i rieni mewn pedwar awdurdod lleol, yn ogystal â rhaglen hyfforddiant yr Ysgolion Deinosor sy'n cynnig medrau rheoli ystafell ddosbarth i athrawon. Mae'r strategaethau sy'n seiliedig ar ysgolion yn canolbwyntio ar addysgu disgyblion ysgolion cynradd sut i reoli eu hanghenion cymdeithasol ac emosiynol, a gyfeirir atynt weithiau fel llythrennedd emosiynol. Sylwer yn benodol bod rhai awdurdodau'n penodi staff arbenigol i gefnogi ysgolion wrth weithredu'r dull Ysgolion Deinosor. Mae'r hyfforddiant i athrawon yn canolbwyntio ar ddefnyddio strategaethau rheoli rhagweithiol a chynnig canllawiau ystafell ddosbarth clir gyda chyfyngiadau rhagweladwy a thechnegau ailymrwymo i leihau ymyriad ac osgoi gwrthdaro. Mae rhai awdurdodau yn cydweithredu'n dda gydag asiantaethau eraill i gynnig rhaglenni hyfforddiant i rieni, athrawon a disgyblion.

7.1.7 Hyrwyddo Strategaethau Meddylfryd Amgen (PATHS)

Mae grŵp bach o awdurdodau yng ngogledd Cymru yn cymryd rhan mewn prosiect ymchwil i arfarnu effeithiolrwydd gweithredu cwricwlwm PATHS i annog disgyblion i wella'u hymddygiad. Mae'r prosiect yn brosiect cydweithredol aml-asiantaeth rhwng yr awdurdod lleol, y gwasanaeth iechyd sylfaenol a Phrifysgol Cymru, Bangor ac mae hefyd yn cynnig hyfforddiant i rieni/gofalwyr ar reoli ymddygiad. Mae cwricwlwm PATHS yn helpu plant i ystyried eu teimladau eu hunain a theimladau pobl eraill a pherthnasoedd, i ddeall yr hyn sy'n sbarduno emosiynau ac ymddygiadau penodol, a gwella cwrteisi ac ymarfer hunanreolaeth. Nid yw ysgolion sydd wedi cael hyfforddiant a chymorth mewn PATHS yn galw am gymorth a chyngor ychwanegol gan Wasanaethau Cymorth Ymddygiad mor aml ag yr oeddent cyn cyflwyno cwricwlwm PATHS. Ceir gwelliannau arwyddocaol mewn ymddygiad disgyblion yn yr ysgolion hyn.

7.1.8 Mentoriaid Ymddygiad

Mae'r strategaeth hon yn galluogi staff addysgu'r brif ffrwd i fod yn gyfrifol am ddisgyblion ac mae wedi helpu ysgolion i osgoi'r angen i dynnu allan o'r ystafell ddosbarth. Trwy weithio mewn ystafelloedd dosbarth gyda staff, mae'r mentoriaid ymddygiad yn gallu adnabod tensiynau ac yn gallu cefnogi ac annog staff i ddelio ag anawsterau sy'n codi yn fwy effeithiol. Mae'r strategaeth yn galluogi athrawon i gadw'r disgyblion hynny y mae eu hymddygiadau'n anodd i'w rheoli, yn yr ystafell ddosbarth. Mewn un awdurdod, mae athrawon cymorth ymddygiad yn yr ardal yn gweithio mewn ysgolion cynradd ac uwchradd i annog dulliau cyson gan y staff. Mae anawsterau pontio ar gyfer disgyblion yn cael eu lleihau oherwydd y dylliau cyson a ddefnyddir gan staff ysgolion cynradd ac uwchradd, a gefnogir gan yr un arbenigwr ymddygiad. Mae perthnasoedd gyda disgyblion, rhieni ac asiantaethau eraill yn fwy effeithiol pan fydd cysondeb ar faterion ymddygiad ar draws yr ardal gyfan, gan gynnwys gweithredu cyson ymagwedd gytûn, yn ogystal ag ymrwymiad yr un staff lle bynnag bo hynny'n bosibl.

7.2 Nodweddion cyffredin

Mae gan nifer o'r mentrau uchod brif ffocws ar annog ymddygiadau cadarnhaol disgyblion a datblygu hunan-barch. Mae hyfforddiant ar reoli ymddygiad cadarnhaol, i staff a rhieni, yn pwysleisio pwysigrwydd sefydlu trefn, disgwyliadau ac amcanion clir. I athrawon, mae'n cefnogi datblygiad cysondeb yn y wers – yn y ffordd y mae'r athro unigol yn delio â gwahanol ddisgyblion a sefyllfaoedd – ac mewn perthynas â phrofiad y disgyblion yn eu gwersi gydag athrawon eraill. Pan ddefnyddir y dull hwn y tu allan i'r ysgol hefyd, mae'n helpu rhieni i fod yn fwy cadarnhaol a chyson wrth ddelio â'u plant.

8. Defnyddio data mewn hyfforddiant rheoli ymddygiad

Mae mwyafrif yr awdurdodau, trwy eu gwasanaethau cymorth ymddygiad, yn canolbwyntio eu hyfforddiant ar wella medrau rheoli'r ystafell ddosbarth fel ffordd o atal ymddygiad amhriodol. Fodd bynnag, ychydig iawn sydd wedi hyfforddi staff ar sut i gasglu a dadansoddi data ar ymddygiad amhriodol gan ddisgyblion fel ffynhonnell tystiolaeth a dadansoddi data ar ymddygiad unigol i gynorthwyo wrth gynllunio ar gyfer gwelliant. Yn gyffredinol, nid oes digon o ymdrech yn cael ei wneud ar hyn o bryd i helpu staff ddeall:

- pam mae ymddygiad disgyblion weithiau'n newid gyda gwahanol athrawon ar hyd y diwrnod; a'r
- berthynas rhwng cyflawniadau disgyblion a'u hymddygiad.

Byddai dadansoddi tueddiadau a phatrymau o achosion o ymddygiad gwael mewn perthynas ag unigolion, p'un ai ydynt yn ddisgyblion gydag anawsterau ymddygiad, neu'n athrawon sy'n cael problemau wrth reoli ymddygiad disgyblion, o gymorth i ddangos a yw'r awdurdod yn cynnig yr hyfforddiant gorau. Mae angen dadansoddi pa strategaethau fu fwyaf effeithiol wrth alluogi athrawon i reoli ymddygiadau, a chost gweithredu strategaethau felly. Bydd y wybodaeth hon yn galluogi pob awdurdod i wneud penderfyniadau gwrthrychol ar sut orau i dargedu eu hadnoddau ar sail gwybodaeth gynhwysfawr am ganlyniadau gwahanol strategaethau. Heb olrhain o'r fath, mae perygl bod yr awdurdod yn gwastraffu adnoddau gwerthfawr a pheidio â hyrwyddo strategaethau effeithiol ar gyfer gwella rheoli ymddygiad.

9. Monitro ac arfarnu hyfforddiant

Ar hyn o bryd, mae'r ffyrdd mwyaf poblogaidd o fonitro effeithiolrwydd hyfforddiant yn cynnwys cymharu cyfraddau gwahardd a dadansoddi ffurflenni arfarnu cwrs. Mae llai na 20% o'r awdurdodau yn arfarnu'r berthynas rhwng yr hyfforddiant y maent yn darparu a'i effaith ar nifer y gwaharddiadau.

Dim ond lleiafrif bach o awdurdodau sy'n monitro canlyniadau achosion neu'n defnyddio data canlyniadau i dargedu hyfforddiant yn y dyfodol. Ar hyn o

bryd, nid oes unrhyw awdurdod yn monitro cydberthynas hyfforddi staff mewn technegau rheoli ymddygiad gyda chanlyniadau o ran cyrhaeddiad disgyblion.

Mae angen i awdurdodau lleol ddod o hyd i fwy o wybodaeth am y math o hyfforddiant sy'n gweithio'n fwyaf effeithiol ac ym mha amgylchiadau.

10. Pwy sydd wedi cael hyfforddiant?

Mae bron pob awdurdod lleol yn cynnig hyfforddiant i staff i helpu gwella eu rheolaeth ar ymddygiad plant. Mae nifer o awdurdodau'n canolbwyntio'r prif gyfleoedd hyfforddiant yn benodol ar seicolegwyr addysg ac athrawon arbenigol o wasanaethau cymorth ymddygiad, gyda'r nod o alluogi'r staff hyn i drosglwyddo arfer dda i athrawon dosbarth. Fodd bynnag, mae rhai awdurdodau'n cynnig hyfforddiant i'r holl staff sy'n gweithio gyda disgyblion mewn ysgolion, ac yn cynnwys swyddogion a staff ymgynghorol o'u gwasanaethau gwella ysgolion mewn dull awdurdod cyfan. Mae'r dull hwn yn cael canlyniadau da ac mae'n helpu cefnogi'r agenda gynhwysiad trwy dorri lawr y ffiniau traddodiadol rhwng agweddau ar wasanaethau cymorth i ysgolion. Mae'n pwysleisio'r berthynas rhwng ymddygiad sy'n gwella a chanlyniadau dysgu ac mae'n cynnig gwell gwybodaeth i swyddogion gwella ysgolion ar gyfer monitro strategaethau a chanlyniadau polisïau ymddygiad ysgol.

Dim ond nifer fach o awdurdodau sydd wedi cynnig hyfforddiant i rieni a gofalwyr fel rhan o'u strategaeth. Lle darparwyd hyfforddiant ar gyfer rhieni a gofalwyr, fe'i ddarparwyd yn bennaf mewn cydweithrediad ag asiantaethau eraill a chafodd ei ganolbwyntio ar ddisgyblion yn y blynyddoedd cynnar.

Mae hyfforddiant i lywodraethwyr wedi canolbwyntio'n bennaf ar weithdrefnau mewn perthynas â gwahardd a goblygiadau'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd ar gyrff llywodraethol. Mae un awdurdod wedi llwyddo i hyfforddi'r holl staff dros y 3 blynedd diwethaf (tua 600 o staff y flwyddyn) a niferoedd sylweddol o rieni, ond nid yw wedi rhoi unrhyw hyfforddiant i lywodraethwyr. Er gwaetha'r mewnbwn hwn, mae nifer y disgyblion a gaiff eu gwahardd yn parhau i fod yn uchel.

Mae nifer y staff nad ydynt yn addysgu sy'n cael hyfforddiant yn amrywio'n sylweddol ar hyd a lled Cymru. Mae rhai awdurdodau wedi ymdrechu'n helaeth i hyfforddi'r staff hyn, yn enwedig y rhai sy'n rhan o'r gwasanaeth allymestyn cymorth ymddygiad i ysgolion y brif ffrwd. Yn gynyddol, mae staff cymorth nad ydynt yn addysgu yn gallu ymgymryd â Chymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol (CGC) trwy drefniadau'r awdurdodau lleol gyda cholegau addysg bellach. Fodd bynnag, mewn perthynas â chyfanswm nifer y staff a gyflogir mewn rolau cymorth ymddygiad ledled Cymru, mae cyfran y staff cymorth nad ydynt yn addysgu sydd wedi cael hyfforddiant yn isel iawn. Y staff sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda disgyblion ag ymddygiad anodd sy'n cael y lleiaf o hyfforddiant.

11. Pwy sy'n darparu'r hyfforddiant?

Mae mwyafrif yr awdurdodau lleol yn defnyddio medrau ac arbenigedd eu seicolegwyr addysg a staff ymgynghorol timau cymorth ymddygiad fel y prif ddarparwyr hyfforddiant ar faterion ymddygiad. Defnyddir darparwyr allanol yn aml i gyflwyno methodoleg newydd ac i roi hyfforddiant cychwynnol i arbenigwyr ymddygiad mewn awdurdod. Mae nifer y staff arbenigol sy'n cael hyfforddiant dros y tair blynedd diwethaf wedi tyfu'n raddol, gan gynyddu gallu'r awdurdodau lleol i raeadru gwybodaeth, medrau ac arbenigedd hyfforddiant i'r staff yn yr ysgolion.

Mae rhai awdurdodau wedi sefydlu perthynas agos gyda phrifysgolion ym Mangor, Caergrawnt a Birmingham ac maent yn cymryd rhan mewn prosiectau ymchwil gweithgar sy'n gysylltiedig â rheoli ymddygiad.

Mae lleiafrif bach o ysgolion arbennig yn cymryd rhan mewn hyfforddiant ac yn cynnig cymorth parhaus i'w cydweithwyr yn y brif ffrwd ar faterion ymddygiad. Pan fydd hyn yn digwydd, mae'r awdurdodau lleol yn gweld bod y gwaith hwn yn ddatblygiad pwysig yn rôl newidiol ysgolion arbennig. Mae defnyddio arbenigedd a medrau staff o ysgolion arbennig i gefnogi cynhwysiad disgyblion gydag anawsterau ymddygiad yn cynnig ymateb ffafriol i agenda Llywodraeth Cynulliad Cymru fel y nodir yn Llunio Dyfodol Addysg Arbennig - Rhaglen Weithredu ar gyfer Cymru (1999).

Mae nifer yr awdurdodau sy'n gweithio mewn cydweithrediad â phartneriaid lleol o'r gwasanaethau iechyd a'r sector gwirfoddol i gynnig hyfforddiant i ysgolion a rhieni wedi cynyddu'n fawr dros y ddwy flynedd diwethaf. Mae nifer o awdurdodau wedi cynnig hyfforddiant trwy'r gwasanaethau cymdeithasol, cyrff gwirfoddol, CAMHS a thimau gofal iechyd sylfaenol, ac mewn cydweithrediad â hwy, gan ddangos ymroddiad i'r agenda cynhwysiad cymdeithasol trwy weithio'n rhagweithiol ar draws asiantaethau.

12. Rhwydweithiau lleol, cymorth a gwybodaeth

Yn y mwyafrif o awdurdodau, mae'n arferol cynnal cyfarfodydd tymhorol ar gyfer cydlynwyr anghenion addysgol arbennig (cydlynwyr AAA)/ cydlynwyr cynhwysiad cymdeithasol lle gall staff drafod datblygiadau presennol, arferion ymddygiad, dulliau dysgu, ymagweddau addysgu a materion perthnasol eraill. Defnyddir y cyfarfodydd hyn hefyd fel cyfleoedd i swyddogion a staff ymgynghorol ymgynghori ag ymarferwyr ar faterion strategol, fel Cynllun Cymorth Ymddygiad yr awdurdod. Mae gan fwyafrif yr awdurdodau hynny nad ydynt yn cael cyfarfodydd cydlynwyr AAA/cydlynwyr cynhwysiad cymdeithasol ar hyn o bryd gynlluniau i sefydlu grwpiau fforwm yn y dyfodol agos. Yn nodweddiadol, mae gan grwpiau presennol aelodaeth eang sy'n cynnwys cydlynwyr AAA/cydlynwyr cynhwysiad cymdeithasol, seicolegwyr addysg ac athrawon ymgynghorol o'r gwasanaeth cymorth ymddygiad. Mae cynrychiolwyr CAMHS a Gweithwyr Cymdeithasol Addysg yn mynychu cyfarfodydd mewn nifer fach o awdurdodau.

Mewn rhai awdurdodau, yn enwedig lle mae niferoedd uchel o ddisgyblion yn cael eu gwahardd, sefydlwyd grwpiau yn ddiweddar i benaethiaid gyfarfod i drafod materion presenoldeb, rheoli ymddygiad a gwahardd gyda swyddogion ac ymgynghorwyr. Mae'r grwpiau hyn yn dechrau datblygu trefniadau ar gyfer cytuno i drosglwyddo disgyblion er mwyn osgoi gwahardd a mwyhau ymdrechion i gynnal disgyblion mewn lleoliadau addysgol. Mewn rhai achosion, mae gwaith gyda darparwyr addysg a hyfforddiant lleol yn galluogi disgyblion i gael mynediad i ddewisiadau cwricwlwm ac opsiynau achredu amgen. Mae arfarnu hyfforddiant rheoli ymddygiad yn cael ei rannu ac mae rhai mentrau ar y cyd wedi ymddangos o'r rhwydweithiau hyn.

Cynhelir cyfarfodydd cynllunio a datblygu rhwng asiantaethau yn rheolaidd yn y rhan fwyaf o awdurdodau, sydd fel rheol yn cynnwys rheolwyr gwasanaeth cymorth ymddygiad, penaethiaid unedau cyfeirio disgyblion a seicolegwyr addysg. Prin y mae'r cyfarfodydd hyn yn cynnwys staff addysgu unigol o ysgolion, ac eithrio ar gyfer adolygiadau achos penodol.

Mae gan nifer fach o awdurdodau lyfrgelloedd canolog gydag adnoddau da, sydd ag amrywiaeth o ddeunyddiau ymddygiad a chynhwysiad cymdeithasol ar gael i athrawon. Ar hyn o bryd, mae awdurdodau eraill yn datblygu cyfleusterau o'r math hwn. Mewn nifer o awdurdodau, mae'r tîm seicoleg addysg a'r gwasanaeth cymorth ymddygiad yn cynnal llyfrgell adnoddau gyda chyfeirlyfrau, cyfnodolion a fideos ar ymddygiad sy'n cynnwys pecynnau Disgyblaeth Bendant. Weithiau, mae hyn yn golygu bod deunyddiau drud yn cael eu dyblygu'n ddiangen.

Ceir ychydig rwydweithiau rhanbarthol sy'n galluogi staff i rannu gwybodaeth ac adnoddau. Fodd bynnag, mae rhai awdurdodau yn dechrau gweithio'n dda gyda phartneriaid rhanbarthol i gynnal cynadleddau ar arferion rheoli ymddygiad. Mae'r cynadleddau hyn yn cynnig cyfleoedd da i athrawon, seicolegwyr addysg a staff cymorth i rannu arfer dda a dysgu am hyfforddiant pellach a methodolegau gwahanol.

Prin y mae staff cymorth nad ydynt yn addysgu yn cael y cyfle i gyfarfod â chydweithwyr sy'n cyflawni gwaith tebyg. Dim ond lleiafrif bach o awdurdodau lleol sy'n trefnu cynadleddau yn benodol ar gyfer y staff hyn, neu'n cynnig cyfle iddynt fynychu hyfforddiant mewn swydd ar y cyd ag athrawon. Fodd bynnag, mae gan nifer o awdurdodau gynlluniau i gynnig hyfforddiant cyffredinol, gan mwyaf gyda chymwysterau CGC2 neu CGC3 a achredir yn genedlaethol, trwy goleg addysg bellach neu ddarparwr hyfforddiant arall.

13. Cyfeiriadau

Cod Ymarfer AAA Cymru: Ebrill 2002

Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru 2002-2003: Estyn, Chwefror 2004

Children in Mind: Y Comisiwn Archwilio, Medi 1999

Busnes Pawb: Y Comisiwn Archwilio, Medi 2001

Llunio Dyfodol Addysg Arbennig – Rhaglen Weithredu ar gyfer Cymru, Ionawr 1999